

# Gwerthoedd Cytûn

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Cyd-gynhyrchu wyth o werthoedd cytûn ar gyfer oedolion sy'n gweithio gyda, neu sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a'u chwarae. Mae'r gwerthoedd hyn yn sail ar gyfer y ffordd yr ydym yn ystyried chwarae, plant a phlentyndod er mwyn darparu cysondeb yn ein hymagwedd tuag at blant ar draws weithlu chwarae Wrecsam.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2023-28)

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid
- Gweithiwr Datblygu Chwarae
- Meysydd chwarae antur Wrecsam (The Land, Y Fenter, Cwm Gwenfro)
- Tŷ Pawb
- Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Tîm Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (TAC) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Adnoddau/galluogwyr

- Gweithwyr proffesiynol yn llawn brwdfrydedd am y cysyniad
- Ymgysylltiad gan ystod eang o wasanaethau
- Uchelgais Dinas Diwylliant Wrecsam
- Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf
- Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan

## Proses

- Cydgynhyrchu'r gwerthoedd gydag ystod amrywiol o wasanaethau
- Digwyddiad lansio'n arddangos y gwerthoedd
- Trosglwyddo hyfforddiant gyda thîm gwasanaeth-penodol
- Trosglwyddo cwrs hyfforddi'r hyfforddwr er mwyn galluogi trosglwyddo pellach ar draws ein gwasanaethau
- Gwerthusiad parhaus ar effaith mabwysiadu'r gwerthoedd

## Heriau

- Proses tymor hir
- Recriwtio digon o weithwyr proffesiynol i drosglwyddo hyfforddiant ar y gwerthoedd
- Ariannu ar gyfer adnoddau
- Gwerthuso effaith – tracio newidiadau tymor hir

## Allbwn/deilliannau

- Mwy o ymwybyddiaeth o chwarae plant ar draws ystod o feysydd gwasanaeth
- Mwy o ddealltwriaeth bod chwarae'n rhan annatod o blentyndod iach a hapus
- Cefnogaeth oddi wrth uwch-swyddogion ac aelodau trwy'r broses wleidyddol
- Yr ymagwedd tuag at blant yn fwy cyson ar draws feysydd gwasanaeth



[www.chwarae.cymru](http://www.chwarae.cymru)